

DANGOSFWRDD CIG COCH

Mai – Awst 2019

% o'r holl weithgarwch yn ystod y cyfnod hwn sy'n berthnasol i'r sector cig coch



Rhwydwaith Arddangos

Ffocws ar system Techno Grazing

Prif nod y prosiect yn safle ffocws Carreg Plas yw arddangos y symudiad o system stocio sefydlog i system bori cylchdro. Bydd y prosiect yn amlygu manteision newid system ac yn darparu glasbrint i ffermwyr sy'n cynnwys y wybodaeth berthnasol sy'n angenrheidiol er mwyn gwella eu busnesau eu hunain. Bydd y prosiect yn amlygu'r ystyriaethau ymarferol sydd ynghlwm, gan gynnwys rhannu'r tir a gosod yr isadeiledd. Mae rheoli'r borfa'n cael ei wneud ar hyn o bryd gyda'r llygad yn unig, ac nid yw'n cael ei gefnogi gan ddata gwirioneddol a gesglir drwy fesur glaswellt yn rheolaidd.

Dros dymor pori 2019, mae 86 o wartheg sugno wedi bod yn pori'r tir ac wedi lloea wrth bori mewn cylchdro. Mewn system stocio sefydlog, roedd y fferm yn tyfu 8tDM/ha ac yn defnyddio 6.5tDM/ha. Ers dechrau pori mewn cylchdro, mae twf wedi cynyddu i 10tDM/ha a'r defnydd i 8.5tDM/ha hyd at Awst eleni. Rhagwelir y bydd y tymor pori yn ymestyn hyd at fis Tachwedd.


Bydd y gost o £31 l/ha i osod yr isadeiledd pori yn cael ei ad-dalu ar ôl y tymor pori cyntaf yn sgil arbedion mewn costau gwrrtaith, llafur; cynnydd yn nhwf glaswellt a'r cynnydd posib mewn cyfradd stocio. Yn sgil llwyddiant y pori cylchdro, bydd John a lanto Pari yn cynyddu niferoedd y fuches sugno ac yn trosi'r system besgi teirw o fwydo grawn yn ddwys i besgi o borthiant.



Ffocws ar gymeriant dŵr gan ddefaid ar uchder o 1,250 troedfedd

Gall pori cylchdro mewn caeau sydd â chyflenwad dŵr prin fod yn ffactor sy'n cyfyngu. Mae'r prosiect hwn ar safle arddangos Aberbranddu yn anelu at fesur faint o ddŵr gafodd ei ddefnyddio dros gyfnod o bythefnos o 22.05.19 – 04.6.19. Ar ôl y cyfnod yma, cafodd y defaid a'r ŵyn eu symud mewn cylchdro i ardal gyda ffynhonnell ddŵr. Roedd y dŵr yn cael ei newid ddwywaith i osgoi dirywiad mewn ansawdd, ond doedd dim effaith ar gymeriant. Bydd yr arbrawf hwn yn parhau pan fydd y defaid yn dychwelyd i'r caeau sydd â diffyg cyflenwad dŵr. Teimlir bod angen mwy o ddata cyn gwneud unrhyw gasgliadau pendant, er bod canlyniadau cychwynnol yn dangos bod llai o ddŵr yn cael ei ddefnyddio'n ymarferol na beth mae ffigyrau'r diwydiant yn ei awgrymu.

Mae'r graff isod yn dangos faint o ddŵr gaiff ei yfed ar uchder o 1,250 troedfedd gan grŵp o ddefaid ac ŵyn o uned yfed symudol..



Y cymeriant dŵr dyddiol cyfartalog dros gyfnod y treial oedd 139L y dydd sydd oddeutu 0.6L y dydd ar gyfer y mamogiaid (ddim yn cynnwys yr ŵyn) sydd yn llawer is na'r ffigwr safonol y diwydiant o 3.3-7.5L y dydd. Er mai dim ond rhan o'r prosiect llawn yw hyn, mae'n dangos y byddai'r maes yma yn cael budd o ymchwil pellach. Ffigyrau defnydd dŵr da byw safonol y diwydiant gan AHDB.

Anghenion cyfartalog dŵr dyddiol gwartheg a defaid:

| Math o stoc | Litrau'r dydd (yfed) |
|-----------------------|----------------------|
| Anifail biff, sych | 15-40 |
| Anifail biff, llaetha | 40-70 |
| Gwartheg pesgi | 25-75 |
| Gwartheg sy'n tyfu | 15-50 |
| Defaid | 3.3-7.5 |

Noder: mae anghenion dŵr yn ddibynnol iawn ar y math o ddogyn a fwytir, tymheredd amgylchynol a'r pwynt yn y gylched gynhyrchu, yn benodol os ydynt o fewn y cyfnod llaetha.

Ffocws ar Ddermatitis Digidol – cynllun 2-bwynt

Defnyddio cynlluniau iechyd y fuches, maeth a chynllun pori integredig i reoli cloffni mewn gwartheg biff er mwyn lleihau dibyniaeth ar wrthfotigau yn y dyfodol.

Mae dermatitis digidol yn achosi cloffni mewn gwartheg, ac yn ogystal â goblygiadau lles, sy'n gallu costio oddeutu £99 yr achos oherwydd llai o gynhyrchiant, cynnydd mewn llafur a chostau milfeddygol.

Ar safle ffocws Trapps Farm, maent yn defnyddio arbenigedd y milfeddyg Sarah Pederson, sy'n arbenigo mewn cloffni gwartheg ac yn cynghori ar gynllun iechyd ar gyfer y fuches gyfan. Y buddsoddiad mwyaf mae'r fferm wedi ei wneud er mwyn taelo'r cloffni yw gosod baddon traed sefydlog. Ers defnyddio'r baddon traed, mae diagnosis clinigol o ddermatitis clinigol wedi lleihau'n sylweddol gyda dim ond gwartheg parhaus yn dangos arwyddion; does dim achosion newydd

Rheoli Dermatitis Digidol mewn Buches sugno: Cynllun dau bwynt

1

TRINIAETH DDWYS

LLEIHAU CRONFA'R AFIECHYD:
Triniaeth ddwys: Trin yr holl friwiau ar yr un pryd i leihau lefelau'r haint yn y fuches a'r amgylchedd.

2

ATAL

ATAL ACHOSION PELLACH:
STOPIO straen newydd rhag dod i'r fuches
STOPIO achos newydd mewn anifeiliaid heb eu heintio
STOPIO hen rhag achosion rhag ddychwelyd

Agrisgôp

CYNHALIYD 93 CYFARFOD Â THEMA CIG COCH GYDA 557 O FNYCHWYR

Roedd themâu'r grwpiau yn cynnwys:

Atal cloffni mewn defaid

Opsionau pori, a'r buddion ar fferm

Ffermio defaid proffidiol


Llunio cynllun busnes

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau technegol a gynhyrchwyd:

- CYNHYRCHU CNYDAU PORTHANT DRWY DDEFNYDDIO HYDROPONEG
- NODWEDDION MAETHOL LLAETH ANIFEILIAID HEBLAW BUCHOD A'R CYFLEOEDD IDDO YN Y DEYRNAS UNEDIG
- MAE'N DEIMLAD YN Y PERFEDD: MAE RWMEN IACH YN SICRHAU BOD ANIFAIL CNOI CIL YN IACH

Grwpiau Trafod



Nifer y grwpiau Trafod Cig Coch: 50

Astudiaeth Achos

Ym mis Awst, cafodd grŵp trafod defaid yn Ynys Môn ymweliad gan yr arbenigwr annibynnol, Liz Genever, i drafod 'Gosod Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod'. Dywedodd wrth y grŵp pa mor bwysig ydi hi i gynllunio ymlaen a gosod targedau busnes pendant.

Aeth Liz o amgylch pob un o aelodau'r grŵp fesul un a gofyn y cwestiynau canlynol:

- "Pa fesurau meincnodi penodol sy'n berthnasol i'ch system ffermio chi?"
- "Ym mha drefn fuasech chi'n eu gosod o ran pwysigrwydd yn eich busnes?"

Daeth canran sganio fel y mesur meincnodi uchaf, ac roeddent i gyd yn cytuno gyda Liz ei fod yn ffactor dylanwadol wrth fesur perfformiad y busnes.

Aeth Liz ymlaen i restru Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) gyda'r grŵp a'u graddio fesul un yn nhermau pwysigrwydd /dylanwad. Yn dilyn y gweithgaredd, penderfynodd y grŵp ar bedwar KPI y byddant yn eu meincnodi dros y flwyddyn nesaf, sef:

- Cynnydd pwysau byw dyddiol (DLWG) (oherwydd ei effaith ar 'ddyddiau ar borthiant')
- Costau cyfnewid
- Kg o bwysau byw dyddiol fesul Ha
- Costau llafur

Bydd pob aelod o'r grŵp yn derbyn crynodeb o'r pwyntiau gweithredu, ac yn defnyddio Mesur i Reoli fel eu hadnodd meincnodi i fesul y dangosyddion perfformiad allweddol yma.

Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

Cynhaliwyd 33 o Ddigwyddiadau gyda 689 o fynychwr



*Mae themâu Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol yn aml yn rhai traws-sector sy'n tueddu i ddenu ffermwyr o bob sector, yn cynnwys y sector Cig Coch.


Cymorthfeydd

Cynhaliwyd 41 Cymhorthfa




Mae'r cymorthfeydd un ac un y byddwn yn eu darparu ar gael i bob sector, yn cynnwys y sector Cig Coch, sy'n golygu y gellir rhannu cyngor arbenigwyr ymhellach. Yn ystod y cyfnod hwn, fe wnaeth 149 o unigolion o fusnesau cig coch fynychu cymhorthfa, naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Cynhaliwyd 18 cymhorthfa Feincnodi ac roedd y rhain wedi eu targedu'n benodol ar gyfer y sector cig coch.

Mentor



Rhaglen Fentora



Gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid



Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd 210 achos o hyfforddiant wyneb i wyneb ar gyfer unigolion o fewn y sector Cig Coch.



E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:



Cliciwch yma i ymweld â'r wefan.

Rhai o'r uchafbwyntiau ar ein Gwefan a'n safleoedd Cyfryngau Cymdeithasol yn ddiweddar...

Facebook 02/05/2019

Mae John Vipond wedi treulio'r wythnos yn ein cwmni mewn gwahanol leoliadau ar hyd a lled Cymru yn trafod sut i dyfu a phesgi ŵyn yn llwyddiannus. Dyma ei 5 'top tip'! Adroddiad llawn ar ein gwefan yn y dyfodol agos.

Cliciwch yma i wylu'r fideo.

Cyrhaeddiad: 4,607
Ymgysylltiad: 410
Hoffi, sylwadau a rhannu: 39

Twitter 29/05/2019

Mae buddsoddi £15,000 mewn is-adeiledd pori wedi haneru'r cyfnod lle mae'r gwartheg i fewn dros y gaeaf i ffermwr cig eidion Bydd James Evans yn trafod sut y mae wedi newid ei arferion ffermio i wneud y gorau o allbwn cig eidion o laswellt.

Argraffiadau: 2,197
Ymgysylltiad: 73

